# Cyngor Bro Morgannwg
# Telerau ac Amodau Byrddau Hysbysebu

**Mae Adran 137(1) o Ddeddf Priffyrdd 1980 yn nodi:**

**"*Os bydd unigolyn, heb awdurdod neu esgus cyfreithlon, mewn unrhyw fodd yn rhwystro'n fwriadol y llwybr rhydd ar hyd priffordd mae'n euog o drosedd ac yn agored i ddirwy heb fod yn fwy na £1,000*."**
**Rhoddir awdurdod cyfreithlon gan yr Awdurdod Lleol (Cyngor Bro Morgannwg yn yr achos hwn) fel yr Awdurdod Priffyrdd trwy gyfrwng trwydded.**

**Mae Adran 149 o Ddeddf Priffyrdd 1980 yn nodi:**

**"(1*) Os oes unrhyw beth yn cael ei ddyddodi ar briffordd fel ei fod yn niwsans, caiff yr awdurdod priffyrdd ar gyfer y briffordd ei gwneud yn ofynnol, drwy hysbysiad, i'r person a'i dododd yno ei symud ar unwaith ac os yw'n methu â chydymffurfio â'r hysbysiad caiff yr awdurdod wneud cwyn i lys ynadon am orchymyn dileu a gwaredu o dan yr adran hon.***

***(2) Os oes gan yr awdurdod priffyrdd ar gyfer unrhyw briffordd sail resymol dros ystyried— (a) bod unrhyw beth a ddodwyd yn anghyfreithlon ar y briffordd yn berygl (gan gynnwys perygl a achosir drwy rwystro'r golwg) i ddefnyddwyr y briffordd, a (b) y dylid symud y peth dan sylw heb yr oedi sy'n ymwneud â rhoi hysbysiad neu gael gorchymyn symud a gwaredu oddi wrth lys ynadon o dan yr adran hon, caiff yr awdurdod dynnu'r peth ymaith ar unwaith."***

1. Mae uchafswm o **ddau** fwrdd hysbysebu fesul safle. Os gosodir mwy na dau fwrdd hysbysebu ar y briffordd yna mae hyn yn torri amodau a thelerau felly bydd unrhyw drwyddedau a gafwyd yn cael eu dirymu heb unrhyw hawl i apelio.

2. Rhaid i unrhyw fusnes sy'n gwneud cais am fwrdd hysbysebu gael yswiriant atebolrwydd cyhoeddus o £5,000,000 mewn perthynas ag unrhyw un digwyddiad a rhaid cyflwyno copi o'r yswiriant hwn i'r Cyngor cyn ystyried trwydded.

3. Mae'r cais am fyrddau hysbysebu yn para am flwyddyn ac nid yw adnewyddu'n awtomatig a chyfrifoldeb perchennog y busnes yw sicrhau ei fod yn adnewyddu'r drwydded. Bydd methu â gwneud hynny yn arwain at symud y bwrdd hysbysebu o'r safle a'i ddinistrio ar ôl **28 diwrnod**.

4. Lle y'i cymeradwyir, dim ond o fewn yr ardal drwyddedig y cytunwyd arni y gellir gosod byrddau hysbysebu ar y briffordd a fydd yn cael ei marcio â phinnau ffordd a phaent wedi'i chwistrellu gan y Cyngor neu ei gynrychiolydd dynodedig.

5. Rhaid cydymffurfio bob amser ag is-ddeddfau a Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus y Cyngor (lle bo'n briodol) yn ogystal â'r holl bolisïau a safonau perthnasol eraill am resymau iechyd, diogelwch ac amgylcheddol.

6. Ni fydd unrhyw gymeradwyaeth ar gyfer byrddau hysbysebu yn cael ei hystyried na'i chaniatáu sy'n effeithio neu'n gwrthdaro'n andwyol â chynlluniau adfer Canol Tref y Cyngor.

7. Bydd cymeradwyo unrhyw fyrddau hysbysebu yn cael ei ystyried gan Reolwr Cynnal a Chadw Priffyrdd neu swyddog penodedig. Mae penderfyniad y swyddog awdurdodi yn derfynol.

8. Nid yw caniatáu byrddau hysbysebu yn awgrymu hawl unigryw i'r ardal. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i gael mynediad i'r ardal ar gyfer glanhau, atgyweirio a chynnal a chadw'r briffordd neu gelfi stryd. Mae'r Cyngor felly'n cadw'r hawl i atal y caniatâd dros dro os bydd angen, am unrhyw reswm, ac i hwyluso mynediad brys gan Ymgymerwyr Statudol ar gyfer cynnal a chadw ac atgyweirio eu hoffer.

9. Ni ddylai'r bwrdd hysbysebu rwystro llwybrau allanfeydd brys o'ch adeiladau eich hun ac adeiladau cyfagos a rhaid i gerbydau'r gwasanaethau brys gael mynediad ar hyd pob stryd bob amser, hyd yn oed mewn strydoedd neu ardaloedd i gerddwyr yn unig.

10. Bydd anghenion defnyddwyr eraill y briffordd yn cael eu hystyried e.e. cerddwyr, masnachwyr, busnesau cyfagos wrth ystyried unrhyw ardal fasnachu dros dro neu ofod allanol a neilltuwyd. Bydd defnydd diogel llwybrau troed neu fannau i gerddwyr yn cael blaenoriaeth dros unrhyw gais am ardal fasnachu dros dro neu ofod allanol a neilltuwyd wrth ystyried ceisiadau.

11. Dylai'r byrddau hysbysebu feddiannu ardal yn union o flaen y safle yn unig a dylent fod yn weladwy o'r prif safle busnes neu dylid goruchwylio staff drwy gydol yr amser y mae'n gweithredu.

12. Bydd yn ofynnol i'r unigolyn sy'n gyfrifol am fyrddau hysbysebu (y rhoddir llofnod iddo yn unol â'r amodau hyn) indemnio'r Cyngor yn erbyn yr holl weithredoedd, galwadau, costau, taliadau neu dreuliau sy'n deillio o ddefnyddio'r briffordd o dan y caniatâd a roddwyd.

13. Mae angen rhoi gwybod am unrhyw ddiffygion neu ddifrod i'r Briffordd i'r Adran Briffyrdd ar unwaith beth bynnag fo'r achos. Gellir ailgodi tâl ar y safle am gost atgyweirio unrhyw ddifrod i wyneb y briffordd neu gelfi stryd a achosir gan unrhyw fwrdd hysbysebu sy'n gysylltiedig â gweithgaredd.

14. Bydd y Cyngor yn cynnal archwiliadau cyfnodol i sicrhau y cedwir at holl delerau ac amodau byrddau hysbysebu. Gallai unrhyw dorri amodau arwain at symud y bwrdd hysbysebu o'r safle heb rybudd.

15. Bydd unrhyw gelfi ar y Briffordd Gyhoeddus ar ôl diwedd y cytundeb yn cael eu symud gan Gyngor Bro Morgannwg. O dan Adran 137 o Ddeddf Priffyrdd 1980, os bydd unrhyw unigolyn, heb awdurdod neu esgus cyfreithlon, mewn unrhyw fodd yn rhwystro teithio'n rhydd ar hyd priffordd yn fwriadol mae'n euog o drosedd ac yn agored i ddirwy hyd at £1,000.

16. Gall y telerau ac amodau hyn amrywio i ddarparu ar gyfer newid mewn amgylchiadau, deddfwriaeth neu ganllawiau a gynhyrchir gan bolisïau a gweithdrefnau Llywodraeth Cymru a Bro Morgannwg ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod y drwydded y cytunwyd arno.

17. Yn amodol ar gymeradwyo a chaniatáu unrhyw ardal fasnachu dros dro neu ofod allanol a ddyrennir gan y swyddog awdurdodi bydd yn ofynnol i bob busnes lofnodi datganiad yn cytuno ar delerau ac amodau'r drwydded fel y bo'n briodol.

18. Mae byrddau hysbysebu i gael eu tynnu gan y busnes y tu allan i oriau masnachu. Bydd unrhyw fyrddau hysbysebu sy'n cael eu gadael y tu allan i'r oriau hyn yn cael eu symud a bydd

tâl gweinyddol o £115.00 yn berthnasol i'r ymgeisydd gasglu'r eitem o Ddepo'r Alpau, Heol y Chwarel, Gwenfô CF5 6AA.

19. Dim ceblau llusgo i'w gosod ar draws y llwybr troed mabwysiedig i ddarparu trydan i'r bwrdd hysbysebu.

20. Rhaid cael lleiafswm o **1.2 fetr** o ofod dirwystr o derfynau pellaf y bwrdd hysbysebu bob amser. Mae'r pellter hwn yn caniatáu ar gyfer llif rhydd defnyddwyr priffyrdd yn ogystal â darparu digon o le i'r rhai sydd â cherbydau cymorth symudedd neu'r rhai sy'n defnyddio cymhorthion cerdded neu eitemau eraill sydd angen mwy o le fel bygis.

21. Ni chaniateir gosod byrddau hysbysebu ar y lôn gerbydau nac mewn cilfachau parcio neu fannau parcio neu fannau eraill a ddyluniwyd yn benodol i'w defnyddio gan gerbydau. Ni ddylid eu gosod wrth ymyl croesfannau cerddwyr ac ni ddylid eu gosod ar neu gerllaw palmant botymog. Mae palmant botymog (twmpathog) yno i arwain pobl â nam ar eu golwg i fannau croesi diogel. Dylid cymryd gofal bob amser wrth osod bwrdd hysbysebu nad yw ychwaith yn ymyrryd â chelfi stryd a bod y llwybr clir i gerddwyr hefyd yn cael ei gynnal pan fydd celfi stryd yn bresennol.

22. Lle bo amgylchiadau eithriadol yn berthnasol, gall y Cyngor roi caniatâd ysgrifenedig i wyro o'r rheol hon, lle mae'n fodlon na fydd rhoi caniatâd o'r fath yn achosi rhwystr neu'n peri anawsterau i aelodau'r cyhoedd, yn enwedig y rheini ag anableddau o unrhyw fath.

23. Rhaid i fyrddau hysbysebu aros yn hollol unionsyth ac mewn cyflwr da bob amser. Dylai byrddau hysbysebu felly aros yn weladwy o'r tu mewn i'r adeilad fel y gall defnyddiwr y drwydded sicrhau mai dyma'r achos. Os yw bwrdd hysbysebu wedi disgyn, yna bydd y perygl posibl y gall achosi gynyddu'n sylweddol ac felly bydd unrhyw fwrdd hysbysebu sydd wedi cwympo yn cael ei ystyried yn rhwystr peryglus.

24. O dan adran 132 o Ddeddf Priffyrdd 1980, ni chaiff neb osod ar y briffordd unrhyw lun, llythyren, arwydd neu farc arall ar wyneb y briffordd nac ar unrhyw goeden, strwythur neu waith heb ganiatâd penodol y Cyngor. Mae'r telerau ac amodau yn gwahardd byrddau hysbysebu rhag cael eu gosod mewn unrhyw ffordd barhaol neu led-barhaol. Mae cloddio priffordd o unrhyw fath a wneir i sicrhau bwrdd hysbysebu wedi'i wahardd yn llym o dan unrhyw amgylchiad. Gall unrhyw unigolyn y nodir ei fod yn torri adran 132 o'r Ddeddf Priffyrdd fod yn agored i Hysbysiad Cosb Benodedig neu erlyniad yn y llys ynadon.

25. Rhaid i bob bwrdd hysbysebu ym Mro Morgannwg fod rhwng uchafswm o 700mm o led ac, o waelod y bwrdd, dim mwy na 1000mm o uchder. Mae'n bosibl na fydd aelodau'r cyhoedd yn sylwi ar fyrddau hysbysebu sy'n rhy fach gan achosi perygl baglu a gall byrddau hysbysebu sy'n rhy fawr achosi anaf difrifol os byddant yn cwympo. Am y rheswm hwn bydd unrhyw fwrdd hysbysebu a welir sydd naill ai'n llai neu'n fwy na'r meintiau a ganiateir yn cael ei ystyried yn rhwystr peryglus.

26. Gwaherddir byrddau hysbysebu a byrddau hysbysebu siglo o fewn Bro Morgannwg. Mae hyn yn golygu, o unrhyw gyfeiriad teithio, mai dim ond un droed fydd yn cyffwrdd â'r palmant neu'r llwybr troed, ac ni fydd lle i gymhorthydd cerdded neu wrthrych fynd o dan y bwrdd.

a. **At ddibenion enghreifftiol yn unig:**

b. **Gwaharddedig**





**Caniataëdig**







27. Nid yw'r deunyddiau y gellir gwneud y bwrdd ohonynt yn cael eu heffeithio, er enghraifft gallai byrddau gael eu gwneud o bren neu fetel o hyd ar yr amod bod ganddynt droed sengl yn cwrdd â llinell y llawr a'u bod yn gadarn ac yn ddiogel.

28. Cyfrifoldeb perchennog y busnes sy’n gyfrifol am y bwrdd hysbysebu yw sicrhau ei fod wedi’i drwyddedu’n gywir a’i fod ond yn cael ei ddefnyddio’n gyfreithlon a’i fod yn ddiogel. Yr unig eithriad i hyn yw pan fo'r cwmni'n gwmni Cyfyngedig, ac yn yr achos hwnnw ysgrifennydd y cwmni sy’n gyfrifol.

29. Mae methu â chadw at delerau ac amodau’r drwydded a roddwyd yn creu perygl diogelwch, bydd y Cyngor a’i swyddogion awdurdodedig yn gweithredu dull dim goddefgarwch i unrhyw achos o dorri amodau a thelerau neu ofynion deddfwriaethol. Bydd unrhyw fyrddau hysbysebu a welir yn torri amodau a thelerau yn cael eu harchwilio a chymerir camau priodol.

30. Rhaid i bob bwrdd hysbysebu gadw at Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac ni ddylent hyrwyddo na chynnwys deunydd y gellir ei ystyried yn wahaniaethol, yn peri tramgwydd neu'n hyrwyddo aflonyddu neu erledigaeth. Rhaid i bob bwrdd hysbysebu beidio â gwahaniaethu yn erbyn unrhyw unigolyn ar sail oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, statws priodas neu bartneriaeth sifil, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol. Nid yw’r rhestr hon yn hollgynhwysfawr ac mae’r Cyngor yn cadw’r hawl i gymryd camau pan allai unrhyw fwrdd hysbysebu gael ei ystyried yn groes i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 neu y gellir ei ystyried yn amhriodol neu a allai beri tramgwydd.

31. Pan fo swyddog awdurdodedig o'r farn bod bwrdd hysbysebu’n beryglus, yna gall y Cyngor symud y bwrdd hysbysebu i'w storio ar unwaith am **28 diwrnod** ar draul y perchennog. £115.00 yw'r ffi storio ar gyfer **28 diwrnod** a bydd methu â chasglu'r bwrdd a thalu'r ffioedd perthnasol o fewn yr amserlen hon yn arwain at ddinistrio'r bwrdd a bydd modd adennill yr holl gostau gan berchennog y busnes.

32. Mewn unrhyw amgylchiad arall bydd swyddog awdurdodedig yn hysbysu'r person yr ymddengys ei fod yn gyfrifol am y bwrdd hysbysebu ac yn ei gwneud yn ofynnol symud y bwrdd hysbysebu oddi ar y briffordd. Rhaid cydymffurfio â'r hysbysiad hwn neu gellir cychwyn camau gorfodi pellach neu geisio gorchymyn llys i gyflawni gofynion yr hysbysiadau.

33. Gan fod troseddau bwrdd hysbysebu yn droseddol yn hytrach na sifil, fel arfer cynhelir erlyniad drwy'r Llysoedd Ynadon.

34. Nid yw trwyddedau yn drosglwyddadwy.